WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyhoeddwyd: Ionawr 2012
Cyfeirnod: 117A2012



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'n arwain Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n atebol i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru am waith Swyddfa Archwilio Cymru.

Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth y Cynulliad, y cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Mae hefyd yn penodi archwilwyr allanol cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Archwilwyr penodedig yr Archwilydd Cyffredinol sy'n gyfrifol am archwilio'r rhan fwyaf o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario yng Nghymru bob blwyddyn gan gynnwys £15 biliwn a drosglwyddir i Gymru bob blwyddyn trwy bleidlais gan Senedd San Steffan. Mae Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo bron i £5.5 biliwn o'r arian hwn i lywodraeth leol, trwy gyfrwng grantiau cyffredinol a phenodol. Mae llywodraeth leol, yn ei thro, yn codi £2.1 biliwn arall trwy'r dreth gyngor a threthi busnes.

Yn ogystal â chyflawni archwiliadau ariannol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gyfrifol am archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Nod Swyddfa Archwilio Cymru yw gofalu bod arian cyhoeddus yn cyfrif, trwy hyrwyddo gwelliannau, fel bod pobl Cymru yn elwa ar wasanaethau cyhoeddus atebol, wedi'u rheoli'n dda, sy'n cynnig y gwerth am arian gorau posibl. Mae hefyd yn ymrwymo i nodi a rhannu enghreifftiau o arfer da ledled sector cyhoeddus Cymru.

Cafodd Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru, gymorth gan Rod Alcott, Jeremy Evans a Janet McNicholas a chydweithwyr o dan oruchwyliaeth Jane Holownia, i gynnal yr Asesiad Gwella a pharatoi'r adroddiad hwn.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno a chynigion ar gyfer gwella** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 8

Mae'r Cygnor yn darparu gwasanaethau da a gwasanaethau sy'n gwella mewn rhai meysydd pwysig. Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau i gydbwyso ei uchelgais gyda'i allu i gynnal darpariaeth a chefnogi gwelliannau yn y dyfodol 9

Mae cynlluniau'r Cyngor yn gadarn, yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac mae hyd a lled y gweithgareddau yn uchelgeisiol 10

Mae'r Cyngor wedi cyflawni llawer o'r hyn roedd wedi bwriadu ei gyflawni yn ei flaenoriaethau a nodwyd 14

Mae'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth dda i rai grwpiau mewn angen, ond mae pryderon ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol plant 15

Ar y cyfan, mae'r perfformiad addysg yn dda ac yn dda iawn mewn ysgolion uwchradd ac mae canfyddiadau arolygiadau yn cadarnhau bod y rhagolygon ar gyfer gwella yn y dyfodol yn dda 16

Mae'r Cyngor wedi gwneud yr hyn roedd wedi bwriadu ei wneud i helpu i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol 18

Nid oes gan y Cyngor ddull cyson o fesur perfformiad ledled gwasanaethau. Gall hyn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor werthuso llwyddiant rhai gweithgareddau ac adrodd ar berfformiad mewn ffordd gytbwys i ddinasyddion lleol 19

**Atodiadau**

**Atodiad 1**
Statws yr adroddiad hwn 22

**Atodiad 2**
Gwybodaeth ddefnyddiol am Gastell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 23

**Atodiad 3**
Cyfrifon a defnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o adnoddau 25

**Atodiad 4**
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot 28

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad ar ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella a darparu eu gwasanaethau. Gan ystyried gwaith Swyddfa Archwilio Cymru a'r arolygiaethau perthnasol, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno darlun o welliant dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r adroddiad wedi'i rannu'n dair prif adran, sy'n cwmpasu gwaith cynllunio, darparu a gwerthuso gwelliannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot (y Cyngor).

2 Ar y cyfan, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau da a gwasanaethau sy'n gwella mewn rhai meysydd pwysig. Gan edrych ymlaen, mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau i gydbwyso ei uchelgais gyda'i allu i gynnal darpariaeth a chefnogi gwelliannau yn y dyfodol.

3 Mae cynlluniau'r Cyngor yn gadarn, yn cael eu darparu'n dda ac mae hyd a lled y gweithgarwch yn uchelgeisiol. Daethom i'r casgliad hwn ar sail y canlynol:

- mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i fynd i'r afael â'i flaenoriaethau ac mae wedi ymateb yn dda i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella;
- mae'r Cyngor yn bodloni ei ymrwymiad statudol o ran Deddf yr Iaith Gymraeg;
- mae'r Cyngor yn defnyddio technoleg i gynorthwyo a chefnogi'r gwaith o weddnewid y gwasanaethau, ond gellid gwneud gwelliannau pellach i atgyfnerthu rhai trefniadau;
- mae dull y Cyngor o reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliannau;
- mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei arian yn effeithiol, ond methodd â bodloni'r terfynau amser statudol ar gyfer llunio'r Datganiad o Gyfrifon; ac
- mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd.

4 Mae'r Cyngor hefyd wedi cyflawni llawer o'r hyn roedd wedi bwriadu ei wneud yn ei flaenoriaethau a nodir. Daethom i'r casgliad hwn ar sail y canlynol:

- Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11. Yn y mwyafrif o achosion, mae'r Cyngor wedi gwneud yr hyn roedd wedi bwriadu ei wneud ac wedi rhagori ar y disgwyliadau mewn ambell achos.
- Mae'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth dda i rai grwpiau mewn angen; ond mae pryderon ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol plant sydd wedi wynebu cyfnod anodd o drawsnewid a chafodd hyn effaith niweidiol ar berfformiad. Mae gwasanaethau oedolion wedi gwneud cynnydd wrth newid seilwaith ei wasanaethau, ond nid yw hyn eto wedi arwain at welliannau mewn rhai o'i ddangosyddion perfformiad allweddol.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei gynlluniau i wella safonau tai ar gyfer tenantiaid y Cyngor.

- Mae'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth dda i helpu pobl i ddatblygu. Ar y cyfan, mae perfformiad ym maes addysg yn dda ac yn dda iawn mewn ysgolion uwchradd ac mae canfyddiadau arolygiadau yn cadarnhau bod y rhagolygon ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol yn dda.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud yr hyn roedd wedi bwriadu ei wneud i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol. Roedd y Cyngor wedi cyflawni'r mwyafrif o'i dargedau o ran cynorthwyo pobl i ganfod gwaith a chynyddu nifer y busnesau roedd yn eu cefnogi. Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gwelliannau amgylcheddol. Mae gwelliannau amgylcheddol eraill yn darparu gwell amwynderau hamdden ar gyfer cymunedau lleol gan gyfrannu'n gadarnhaol at eu lles.

5 Yn olaf, mae'r adroddiad yn nodi ein safbwyntiau ar asesiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad a'i drefniadau. Daethom i'r casgliad nad oes gan y Cyngor ddull cyson o werthuso perfformiad ar draws y gwasanaethau. Gall hyn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor fonitro cynnydd rhai gweithgareddau ac adrodd ar berfformiad mewn ffordd gytbwys i ddinasyddion lleol. Mae gwahanol systemau mesur ar waith ac amharodrwydd ar y cyfan i fesur graddfa'r gwelliannau y mae'r Cyngor yn ceisio'u cyflawni. Mae hyn, yn ei dro, yn ei gwneud yn anodd asesu a yw asesiad y Cyngor yn deg a chytbwys.

# Cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar gyfer gwella | |
|---|---|
| C1 | Er mwyn cynorthwyo dinasyddion i ddeall yn iawn y cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud yn cyflawni ei amcanion ac yn gwella ei berfformiad, dylai'r Cyngor:<br>• sicrhau bod ei adroddiad blynyddol yn fwy cytbwys;<br>• mynegi'n glir ei safbwynt ei hun ar yr hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni drwy bennu nodau perfformiad a disgwyliadau;<br>• bod yn gliriach ynglŷn â pherfformiad nad yw cystal â'r disgwyl, yn ogystal â lle mae wedi rhagori ar y disgwyliadau;<br>• sicrhau bod cymunedau a dinasyddion yn fwy ymwybodol o'r asesiad o berfformiad; a<br>• mynd ati'n frwd i gael adborth a sylwadau gan ddinasyddion. |
| C2 | Mae angen i'r Cyngor fynd i'r afael â meysydd i'w datblygu a gwella a nodir mewn archwiliadau allanol ac adroddiadau arolygu blaenorol. |

# Adroddiad manwl



# Cyflwyniad

6 Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ceir disgrifiad cryno o ddyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol ar dudalen 2.

7 Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad blynyddol am ba mor dda mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru'n cynllunio ar gyfer gwella ac yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn cyflwyno mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth arolygiaethau Cymru, Estyn (ar gyfer addysg) ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a Bwrdd yr Iaith Gymraeg, rydym wedi creu darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio'i gyflawni a sut maent yn mynd ati i wneud hynny. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn nodi'r cynnydd a wnaeth y Cyngor ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, gan ystyried hunanasesiad yr Awdurdod.

8 Gydol yr adroddiad hwn, rydym yn nodi beth sydd angen i'r Cyngor ei wneud er mwyn gwella ei wasanaethau. O gofio'r amrywiaeth eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol iawn pe na baem yn canfod rhywbeth y gellir ei wella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

- argymell i Weinidogion Llywodraeth Cymru y dylent ymyrryd mewn rhyw fodd;
- cynnal archwiliad arbennig a chyhoeddi'r adroddiad gydag argymhellion manwl;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – ac os gwneir argymhelliad ffurfiol, rhaid i'r Cyngor ymateb iddo'n gyhoeddus cyn pen 30 diwrnod; a
- gwneud cynigion ar gyfer gwella – os byddwn yn cyflwyno cynigion i'r Cyngor, disgwyliwn iddynt weithredu arnynt cyn dilyn hynny wedyn.

9 A yw'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol i chi, ac yn hawdd i'w ddeall? Mae croeso i chi anfon sylwadau trwy e-bostio info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau da a gwasanaethau sy'n gwella mewn rhai meysydd pwysig. Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn parhau i gydbwyso ei uchelgais gyda'i allu i gynnal darpariaeth a chefnogi gwelliannau yn y dyfodol

10 Mae'r adroddiad hwn yn nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol ar y Cyngor wrth gyflawni ei ddyletswydd statudol i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliannau parhaus. Mae'r farn hon wedi'i llywio gan waith Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, Bwrdd yr Iaith Gymraeg ac AGGCC.

11 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar y prif amcanion y mae'r Cyngor wedi'u pennu ar ei gyfer ei hun a rhai materion allweddol eraill fel hunanwerthuso ac adrodd ar berfformiad i'r cyhoedd. Mae'r adroddiad yn adeiladu ar Asesiadau Corfforaethol ac Adroddiadau Gwella Blynyddol blaenorol a gyflwynwyd i'r Cyngor ac mae'r casgliadau'n seiliedig ar y wybodaeth rydym wedi ei chrynhoi a'i rhannu a chanfyddiadau o'r gwaith a wnaed eleni.

12 Mae ein casgliad cyffredinol yn adlewyrchu cynnydd y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau da a gwasanaethau sy'n gwella mewn rhai meysydd pwysig ac mae'n cydnabod ehangder uchelgais y Cyngor. Rydym yn cydnabod bod uchelgais ac arloesedd yn hollbwysig os am weld gwelliannau yn yr hinsawdd ariannol anodd sydd ohoni. Rydym hefyd yn cydnabod y bydd angen datblygiadau sefydliadol sylweddol os ydym am wireddu'r uchelgais hon, er mwyn sicrhau bod y seilwaith a'r gallu angenrheidiol ar gael i gynnal darpariaeth a chefnogi gwelliannau yn y dyfodol. Mae hon yn dipyn o her i'r Cyngor yn ei ymgais i sicrhau gwelliannau parhaus.

13 Yn ogystal â rhoi cynlluniau cadarn sy'n cael eu cyflawni'n effeithiol ar waith, mae'n bwysig bod gan y Cyngor ddealltwriaeth dda o hyd a lled y cynnydd a'r gwelliannau y mae'n eu gwneud. Gwelsom nad oedd gan y Cyngor ddull cyson o werthuso perfformiad ar draws y gwasanaethau. Gall hyn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor fonitro cynnydd rhai gweithgareddau ac adrodd ar berfformiad mewn ffordd gytbwys i ddinasyddion lleol.

## Mae cynlluniau'r Cyngor yn gadarn, yn cael eu cyflawni'n effeithiol ac mae hyd a lled y gweithgareddau yn uchelgeisiol

14 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein hasesiad o ba mor dda y mae'r Cyngor yn cyflawni yn erbyn yr amcanion gwella y mae wedi'u pennu ar ei gyfer ei hun (fel y rhestrir yn Atodiad 4) a sut mae'r Cyngor yn cynllunio a rheoli ei waith i gynnal a gwella gwasanaethau. Mae'r adran hon o'r adroddiad hefyd yn ystyried a yw'r Cyngor wedi cymryd camau digonol a phriodol mewn ymateb i faterion a godwyd yn ein hadroddiadau blaenorol.

**Mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i fynd i'r afael â'i flaenoriaethau ac mae wedi ymateb yn dda i awgrymiadau blaenorol ar gyfer gwella**

15 Mae arweinwyr y Cyngor yn parhau i geisio sicrhau newidiadau a mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr Asesiad Corfforaethol ym mis Gorffennaf 2010. Hefyd, nododd yr Asesiad Corfforaethol fod blaenoriaethau brys y Cyngor yn cynnwys gwirio'r Blaengynllun Ariannol, gan roi cynllun gweithredu'r Cyngor ar waith yn dilyn arolygiad Estyn yn 2010, dod o hyd i atebion cynaliadwy i'r pwysau ariannol ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol a'r angen i wella'r broses o gynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau nad yw gwelliannau'n cael eu hatal gan gyfyngiadau gallu.

16 Cyfeirir at gynnydd parhaus y Cyngor gyda'i Flaengynllun Ariannol ym mharagraffau 17 a 18. Mae dod o hyd i atebion cynaliadwy i'r pwysau ariannol ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn cyfnod o gyni parhaus, yn dipyn o her i'r Cyngor a bydd yn her am gryn amser eto. Bydd y cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud o ran rhoi ei gynllun gweithredu ar ôl yr arolygiad ar waith ar gyfer addysg yn cael ei fonitro gan Estyn ac yn cael ei drafod mewn adroddiadau dilynol gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Cyngor wedi datblygu cynigion ar gyfer cynllunio ar gyfer olyniaeth a newid sefydliadol sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd gyda'r gobaith o'u rhoi ar waith yn 2012-13.

17 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol â'i raglen trawsnewid sydd wedi cyfrannu at ei sefyllfa ariannol gymharol sefydlog. Mae rhaglen drawsnewid y Cyngor yn sbarduno cynnydd yn y gwaith o ailgynllunio neu newid y model darpariaeth ar gyfer rhai o'i wasanaethau mwyaf fel gofal cymdeithasol i oedolion a'r gwasanaethau tai. Mae'r Cyngor wedi parhau i ostwng y gwastraff a anfonir i gael ei dirlenwi, gan anfon dim ond 25.77 y cant o wastraff trefol i safleoedd tirlenwi a chynyddu'r gwastraff a ailgylchir i 41.3 y cant yn 2010-11. Mae newidiadau i feysydd gwasanaethau penodol fel prosesu Bathodynnau Glas, budd-daliadau tai a phrosesau budd-dal y Dreth Gyngor a darpariaeth cyfleusterau i bobl anabl, oll yn dangos gwell amseroedd darparu gwasanaethau, gwell ansawdd ac arbedion ariannol i'r Cyngor yn y mwyafrif o achosion. Drwy fynd ati i reoli'n fwy brwd, mae'r Cyngor wedi gostwng lefelau salwch staff o 16 y cant gan arbed dros £1 miliwn i'r Cyngor mewn costau absenoldeb.

18 Nodir amcanion y Cyngor ar gyfer 2010-11 (a blynyddoedd dilynol) yn glir yn y Cynllun Corfforaethol, ond nid oes dulliau clir o fesur llwyddiant neu dargedau ar sail canlyniadau sy'n pennu graddfa'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ceisio'i gyflawni i gyd-fynd â nhw. Er bod yr adroddiad blynyddol yn cynnwys ystod eang o gamau a gweithgareddau, canlyniadau adborth defnyddwyr, rheoliadau allanol ac ati, i ategu ei amcanion, ond heb ddulliau priodol

o fesur llwyddiant, nid ydynt yn ddigonol i'w alluogi i asesu a yw wedi cyflawni'r amcanion a bennwyd neu raddfa ei gynnydd.

19 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi nodi nifer o feysydd i'w gwella ar gyfer y Cyngor yn ei adroddiad sy'n cwmpasu'r ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r Cyngor wedi ymateb yn gadarnhaol i'r awgrymiadau hyn ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael â nhw, ac aed i'r afael â rhai yn llwyr. Rydym yn bwriadu ymgysylltu â'r Cyngor yn gynnar yn 2012 i bennu a oes unrhyw faterion sydd eto heb eu datrys sy'n codi yn ein gwaith cynharach o ran cynigion archwilio ar gyfer gwella, ynghyd ag unrhyw feysydd newydd a nodir yn yr adroddiad hwn.

**Mae'r Cyngor yn cyflawni ei ymrwymiad statudol o ran Deddf yr Iaith Gymraeg**

20 Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi canmol y Cyngor am gael dyfarniad cadarnhaol yn yr ymarfer arolygu dogfennaeth etholiadol a gynhaliwyd eleni. Hefyd, croesawodd y Bwrdd waith cadarnhaol y Gwasanaethau Ieuenctid a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Roedd y broses o gontractio gwasanaethau ac allbwn electronig y Cyngor yn flaenoriaethau ar gyfer gwella yn y flwyddyn nesaf. Disgwylir i gynlluniau gwella neu gamau gweithredu penodol i'w cymryd yn y meysydd hyn gael eu cynnwys yng Nghynllun Iaith Cymraeg diwygiedig y Cyngor, ond mae'r gwaith wedi'i oedi.

**Mae'r Cyngor yn defnyddio technoleg i gynorthwyo a chefnogi'r gwaith o weddnewid y gwasanaethau cymorth, ond gellid gwneud gwelliannau pellach i atgyfnerthu rhai trefniadau**

21 Yn ein hadolygiad o'r ffordd y mae'r Cyngor yn defnyddio technoleg, sy'n hollbwysig ar gyfer gweddnewid darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus, gwella canlyniadau ar gyfer dinasyddion a sicrhau arbedion effeithlonrwydd, daethom i'r casgliadau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd technoleg ac wedi gwneud gwelliannau pwysig i'w seilwaith technoleg ac wedi rhoi ar waith y sylfeini technoleg a threfniadau llywodraethu i sicrhau arbedion a bod ei wasanaethau yn cael eu gweddnewid; ond gallai ddatblygu a manteisio ymhellach ar dechnoleg er mwyn sicrhau manteision ac arbedion pellach.
- Mae'r trefniadau cyfredol yn gadarn a cheir enghreifftiau o arferion da. Fodd bynnag, er bod y Cyngor yn derbyn y gall buddsoddi mewn TGCh/technoleg ei helpu i weddnewid gwasanaethau a sicrhau effeithlonrwydd, disgwylir i'r Gwasanaeth TGCh wneud yr un cyfraniadau o ran arbedion i'r Blaengynllun Ariannol â gweddill y Cyngor, er y defnydd a'r ddibyniaeth gynyddol ar dechnoleg. Dim ond drwy leihau niferoedd staff y gellir gwneud yr arbedion hyn.
- Ceir perfformiad cadarn, sy'n gwella. Bydd defnyddio gwybodaeth am berfformiad yn well yn cefnogi gwelliannau pellach, ond mae angen cysylltu cynnydd ac uchelgais gyda'r adnoddau sgiliau sydd ar gael.

**Mae dull y Cyngor o reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliannau**

22 Yn sgil y pwysau ariannol cynyddol ar y sector cyhoeddus, mae angen defnyddio a manteisio i'r eithaf ar y wybodaeth sydd gennym i ddarparu a chynllunio gwasanaethau'n effeithiol. Daeth ein hadolygiad o'r ffordd y mae'r Cyngor yn rheoli gwybodaeth i'r casgliadau canlynol:

- Mae dull y Cyngor o reoli gwybodaeth yn cefnogi gwelliannau ac mae'n ymwybodol o faterion sydd angen iddo fynd i'r afael â nhw.
- Mae'r trefniadau cyfredol yn effeithiol. Mae gwaith eisoes yn cael ei wneud mewn meysydd sydd angen eu gwella. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau llywodraethu gyda rolau a chyfrifoldebau yn cael eu datblygu a'u gwella.
- Mae'r Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac mae ganddo ddull rhagweithiol o sbarduno gwelliannau.

**Mae'r Cyngor yn parhau i reoli ei arian yn effeithiol, ond methodd â bodloni'r terfynau amser statudol ar gyfer llunio'r datganiad o gyfrifon**

23 Mae'r Cyngor yn deall yr heriau ariannol sy'n ei wynebu ac wedi rhoi agenda drawsnewid ar waith i sicrhau newidiadau yn y ffordd y mae'n gweithio, ynghyd â sicrhau arbedion o fewn meysydd gwasanaethau penodol. Mae arbedion fel hyn sydd wedi'u cynllunio yn cael eu hamlinellu yn ei Flaengynllun Ariannol sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd i nodi achosion o arafu a risgiau newydd.

24 Llwyddodd y Cyngor i gyflawni ei arbedion ariannol a'i dargedau effeithlonrwydd ar gyfer 2010-11 ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni'r arbedion o £13.1 miliwn sy'n ofynnol yn 2011-12. Fodd bynnag, mae angen mynd i'r afael ag arbedion sydd heb eu nodi hyd yma ym mlynyddoedd olaf y cynllun, ynghyd â'r angen i ddangos yn fwy clir effaith y rhaglen gyfalaf ar y Blaengynllun Ariannol. Mae'r Cyngor wrthi'n paratoi ei gyllideb ar gyfer 2012-13 ar ôl nodi bod angen mynd i'r afael â diffyg amcangyfrifedig o £6.5 miliwn mewn cyllid.

25 Llwyddodd y Cyngor i gadw at ei amserlenni statudol ar gyfer llunio datganiad o gyfrifon 2010-11 ac er iddo dderbyn barn archwilio ddiamod yn y pen draw, roedd ansawdd y cyfrifon a dderbyniwyd ar gyfer eu harchwilio yn wael ac roedd angen llawer o fewnbwn gan swyddogion a'r archwilydd i'w cywiro.

26 Mae paratoi a chyhoeddi cyfrifon archwiliedig a chywir yn amserol yn ffordd sylfaenol i'r Cyngor ddangos sut mae'n rheoli arian cyhoeddus, felly mae'n bwysig bod yr adnoddau a'r prosesau angenrheidiol ar waith i sicrhau ei fod yn cadw at yr amserlenni statudol yn 2011-12. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

**Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu ei ddull o ymgysylltu â'r cyhoedd**

27 Gellir diffinio ymgysylltu â'r cyhoedd fel proses sy'n dod â phobl at ei gilydd i fynd i'r afael â materion sy'n bwysig i bawb, er mwyn datrys problemau cyffredin, a sicrhau newid cymdeithasol cadarnhaol. Mae ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd yn gwahodd dinasyddion i gyfrannu at drafodaethau, deialog a chamau gweithredu ar faterion sy'n bwysig iddynt.[1]

28 Dangosir ymrwymiad y Cyngor i ddatblygu dull effeithiol o ymgysylltu â'r cyhoedd drwy'r ffordd y mae'n hyrwyddo gofal cwsmeriaid da a'i gydnabyddiaeth gorfforaethol bod ymgysylltu â'r cyhoedd yn hollbwysig i wella gwasanaethau.

29 Mae'r Cyngor wedi llwyddo'n dda i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd. Dyma rai enghreifftiau o ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd o fewn gwasanaethau'r Cyngor.

30 Yn ddiweddar, cynhaliodd y Cyngor ymarfer ymgynghori ar Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Yn dilyn ymateb eithaf da gan y cyhoedd, mae'r Cyngor yn bwriadu annog a chynnwys nifer o'r ymatebwyr i weithredu fel 'hyrwyddwyr' yn eu cymunedau eu hunain. Bydd yr hyrwyddwyr hyn yn cael eu hyfforddi i wella'u sgiliau a'u gwybodaeth, gyda'r bwriad eu bod yn hyrwyddo mentrau ac annog eu cymunedau i wneud mwy i sicrhau gwell iechyd a lles.

31 Gyda chymorth ac arweiniad y Cyngor, mae'r Cyngor Pobl Hŷn yn grŵp o unigolion hyderus a threfnus iawn sydd wedi elwa yn y gorffennol ar eu gwaith fel 'llysgenhadon' yn eu cymunedau. Mae'r Cyngor Pobl Hŷn hefyd yn awyddus i gynnig her i'r Cyngor er mwyn gwella gwasanaethau ar gyfer y grŵp oedran penodol hwnnw. Mae'r grŵp yn cyfarfod y Cabinet ddwywaith y flwyddyn er mwyn rhannu eu safbwyntiau a'u pryderon yn uniongyrchol.

32 Mae'r Cyngor wedi cynnal nifer o adolygiadau o systemau sydd â'r nod o ail-wampio a gwella darpariaeth gwasanaethau. Hyd yma, mae dros dwy ran o dair o wasanaethau wedi bod drwy'r broses hon sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau yn uniongyrchol. Mae'r defnyddwyr hyn yn gweithredu fel seinfyrddau, gan roi eu barn a'u hadborth ar safonau cyfredol gwasanaethau penodol a helpu i nodi ffyrdd o wella gwasanaethau. Dyma gyfle gwych i ddefnyddwyr gwasanaethau ddeall a dirnad sut y gallant wella sut y darperir gwasanaethau.

33 Mae'r Cabinet a phwyllgorau Cynllunio yn defnyddio nifer o leoliadau yn y gymuned er mwyn sicrhau bod eu cyfarfodydd yn fwy hygyrch i'r cyhoedd ac yn annog rhyngweithio ac ymgysylltu.

34 Er bod yr uchod yn cynnig enghreifftiau unigol o arferion da, nid yw'r Cyngor eto wedi datblygu dull strategol clir o gynllunio a gweithredu ei weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd; ac ar hyn o bryd nid oes dull monitro a gwerthuso cyffredinol ar gyfer ei holl weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod hwn yn faes allweddol i'w wella.

1 Cyfieithiad Cymraeg o'r diffiniad a geir ar wefan 'Public Agenda' 2010.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni llawer o'r hyn roedd wedi bwriadu ei gyflawni yn ei flaenoriaethau a nodwyd

35 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi ein hasesiad o berfformiad y Cyngor wrth:

- gyflawni'r amcanion gwella roedd wedi'u pennu ar ei gyfer ei hun ar gyfer 2010-11;
- cefnogi pobl mewn angen;
- helpu pobl i ddatblygu; a
- helpu i greu amgylchedd diogel, llewyrchus a dymunol.

**Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella yn 2010-11**

36 Fel yr adroddwyd yn y Diweddariad o'r Asesiad Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ym mis Mehefin 2011, mae amcanion gwella'r Cyngor a nodir yn y cynllun gwella 2011-14 (o'r enw *Cyflawni'r Hyn sy'n Bwysig*) yn nodi'n glir yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni a pham. Fodd bynnag, mae gan rai o'r amcanion gwella fesurau llwyddiant braidd yn oddrychol fel 'cynnal cyfranogiad' neu 'adolygu', felly nid yw'n glir bob amser beth yn union oedd y disgwyliadau penodol neu a oeddynt yn cael eu cyflawni'n llawn. Mae hefyd yn ei gwneud hi'n anoddach i randdeiliaid ddal y Cyngor yn atebol am ei berfformiad.

37 Ar y cyfan, gwnaeth y Cyngor gynnydd da yn 2010-11 tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella. Yn y mwyafrif o achosion, cyflawnodd y Cyngor yr hyn roedd wedi bwriadu ei gyflawni gan ragori ar y disgwyliadau mewn ambell achos. Ar y cyfan, cyflawnwyd Amcanion Gwella a oedd yn ymwneud â thai, yr amgylchedd a'r economi leol.

38 Er bod gan y Cyngor amcan penodol o 'ddatblygu'r gwaith adfywio yng nghanol ein trefi', ni ddarparodd unrhyw fesurau llwyddiant penodol ar gyfer 2010-11 neu ar gyfer unrhyw flwyddyn arall. Fodd bynnag, mae Adroddiad Blynyddol 2010-2011 yn crybwyll ei fod wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer dau gynllun adfywio pwysig.

39 Er bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus iawn mewn rhai agweddau yn erbyn ei amcan i wella ansawdd, effeithlonrwydd a hygyrchedd, roedd ei berfformiad cyffredinol yn ystod 2010-11 yn llai boddhaol. Ar y cyfan, ychydig dros draean (37 y cant) o Ddangosyddion Perfformiad a oedd wedi dangos gwelliant rhwng 2009-10 a 2010-11, a gwaethygodd perfformiad mwy na hanner (54 y cant) yn ystod yr un cyfnod. Roedd y dirywiad mwyaf amlwg ymysg cyfarwyddiaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant a Hamdden a Diwylliant, gyda dau o bob tri Dangosydd Perfformiad yn gwaethygu yn ystod 2010-11. Ar y sail hon, nid oedd y Cyngor yn cyflawni'r amcan gwella penodol hwn; ac nid oedd yn cynnwys asesiad clir o'i gynnydd yn ystod 2010-11 yn ei Adroddiad Blynyddol.

40 Mewn perthynas â gwasanaethau plant, cyflawnodd y Cyngor ei amcanion ar gyfer 2010-11, sef cynyddu nifer y gofalwyr maeth ac, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol yn y gymuned, adolygu'r trefniadau cymorth cyfredol ar gyfer plant a theuluoedd agored i niwed a chynllunio ar gyfer rhoi gwasanaethau wedi'u hailgynllunio ar waith. Fodd bynnag, fel y sonnir isod, mae achosion lle mae gweithredu'r newidiadau hyn wedi effeithio'n niweidiol ar ddangosyddion perfformiad cyfredol.

41 Mewn perthynas â gwasanaethau oedolion, roedd y Cyngor yn cyflawni ei amcan i fynd i'r afael â'r angen am well Cartrefi Gofal Preswyl a gwell Gofal yn y Gymuned er mwyn atal anfon pobl i ysbytai a darparu ôl-ofal ar ôl iddynt adael yr ysbyty. Fodd bynnag, mae'r camau gweithredu yn parhau i gael eu datblygu ac nid yw eu heffaith ar berfformiad wedi'i phennu eto.

## Mae'r Cyngor yn rhoi cefnogaeth dda i rai grwpiau mewn angen, ond mae pryderon ynglŷn â gwasanaethau cymdeithasol plant

42 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi i ba raddau y mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n cefnogi pobl mewn angen. Mae'n adlewyrchu safbwyntiau AGGCC mewn perthynas â gwasanaethau oedolion a phlant; ac yn crynhoi ein hadolygiadau ein hunain o berfformiad y Cyngor yn erbyn amcanion gwella perthnasol.

**Mae gwasanaethau plant wedi wynebu cyfnod anodd o drawsnewid a chafodd hyn effaith niweidiol ar berfformiad**

43 Ym mis Awst 2010, cynhaliodd AGGCC arolygiad a oedd yn canolbwyntio ar themâu allweddol i blant agored i niwed er mwyn pwyso a mesur pa mor effeithiol oeddynt yn darparu gwasanaethau diogel i blant agored i niwed. Nododd yr arolygiad nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella a chytunwyd y byddai AGGCC yn cynnal adolygiad o gynnydd y meysydd hyn yn ystod 2011. Cynhaliwyd yr adolygiad ym mis Medi 2011. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod y Cyngor wedi gwneud peth cynnydd wrth fynd i'r afael â'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer gwella a nodwyd yn arolygiad y flwyddyn flaenorol, ond bod nifer o ffactorau'n parhau i effeithio ar allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau diogel ac ymatebol o ansawdd uchel.

44 Mewn ymateb i ganfyddiadau'r adolygiad, cyhoeddodd Gwenda Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol, y datganiad canlynol:

*'Mae'r arolygiad o wasanaethau cymdeithasol plant yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi nodi bod yr awdurdod yn parhau'n ymrwymedig i wella ei wasanaethau cymdeithasol i blant a'i fod yn parhau i fuddsoddi yn y gwasanaethau hyn. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno rhaglen newid bwysig i wella gwaith rhyngasiantaethol ac ymarfer gofal plant. Dengys canfyddiadau'r arolygiad bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud, ond mae hefyd yn nodi meysydd lle mae angen i'r cyngor wella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu ar fyrder er mwyn hybu lles a diogelwch plant.*

*Mae'r Prif Arolygydd, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, wedi fy hysbysu o'r trefniadau y mae'r arolygiaeth wedi'u rhoi ar waith i fonitro cynnydd yn rheolaidd yn yr awdurdod. Rwyf wedi gofyn i'r Prif Arolygydd adael i mi wybod am gynnydd yr awdurdod o ran gwella gwasanaethau plant. Cynhelir arolygiad pellach o wasanaethau plant y cyngor yn ystod haf 2012.'*

**Mae gwasanaethau oedolion wedi gwneud cynnydd wrth newid seilwaith ei wasanaethau, ond nid yw hyn eto wedi arwain at welliannau mewn rhai o'i ddangosyddion perfformiad allweddol**

45 Mae gan y Cyngor raglen newid ac ad-drefnu gwasanaethau uchelgeisiol. Er mwyn manteisio i'r eithaf ar ei allu, mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu'r rhaglen gofal preswyl ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo'n iawn. Mae'r perfformiad ym maes ymarfer diogelu oedolion wedi gwella ac mae tystiolaeth o gynnydd yn y gwaith o ad-drefnu gwasanaethau gofal yn y cartref a gofal canolraddol er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, ac mae datblygiadau pellach ar y gweill yn y meysydd hyn yn 2011-12. Mae cynlluniau i ddechrau trawsnewid y rhaglen gofal cymdeithasol i oedolion, gan ganolbwyntio i ddechrau ar wasanaethau anabledd dysgu. Mae'r holl ddarnau hyn o waith yn cyfrannu at yr agenda gwella a thargedau arbedion sylweddol y Cyngor.

46 Bu cynnydd sylweddol yng nghyfradd yr achosion o gleifion yn gadael yr ysbyty am resymau gofal cymdeithasol, oedi cyn trosglwyddo gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a hŷn, gan godi o saith yn 2009-10 i 15 yn 2010-11. Bu gostyngiad o 16 y cant yn niferoedd y cynhalwyr sy'n cael eu hasesu yn 2010-11, gyda'r nifer a fanteisiodd ar y cynnig hwn ac yn derbyn gwasanaeth wedi gostwng o 48 y cant i 25 y cant. Adroddodd y Cyngor bod canran y cleientiaid yr adolygwyd eu hanghenion yn 2010-11 wedi gostwng o 73 y cant i 69 y cant.

**Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei gynlluniau i wella safonau tai ar gyfer tenantiaid y Cyngor**

47 Cwblhawyd y broses o drosglwyddo perchnogaeth stoc tai y Cyngor i NPT Homes yn ystod 2010-11 (7 Mawrth 2011), cyn ei darged gwreiddiol o 2011-12. Hefyd, mae'r Cyngor wedi sefydlu protocolau partneriaeth a threfniadau craffu i fonitro perfformiad NPT Homes, gan gynnwys ei gynnydd yn gwella'r stoc a drosglwyddwyd er mwyn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru. Yn y tymor byr iawn, nid yw cyflawni'r garreg filltir Trosglwyddo Stoc ar Raddfa-Fawr wedi gwneud unrhyw wahaniaeth amlwg i ansawdd y gwasanaethau a ddarperir neu les cymunedau. Ond un o'r dadleuon allweddol dros y Trosglwyddo Stoc ar Raddfa-Fawr oedd y potensial ar gyfer gwasanaethau o well ansawdd yn sgil y buddsoddiad y gallai NPT Homes ei wneud - gwella lles yn y tymor canolig a'r tymor hwy. Felly, bydd cymunedau sy'n dibynnu ar dai cymdeithasol ar eu hennill yn y pen draw yn sgil hynny.

## Ar y cyfan, mae perfformiad addysg yn dda ac yn dda iawn mewn ysgolion uwchradd ac mae canfyddiadau arolygiadau yn cadarnhau bod y rhagolygon ar gyfer gwellian yn y dyfodol yn dda

48 Mae'r casgliadau uchod a'r paragraffau canlynol sy'n ategu'r casgliadau hynny yn cynrychioli safbwyntiau Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru.

49 Ar y cyfan, mae'r safonau'n dda yng Nghastell-nedd Port Talbot. Wrth ystyried ystod o wybodaeth gyd-destunol, mae perfformiad disgyblion yng Nghastell-nedd Port Talbot yn is na'r cyfartaledd yng Nghyfnod Allweddol 1, yn unol â chyfartaledd yng Nghyfnod Allweddol 2 a da yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae'r perfformiad yn dda iawn yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae dros hanner yr ysgolion uwchradd yn y chwarter uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg a dim ond un ysgol sydd yn y chwarter isaf.

50 Mae perfformiad yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4, ar sail yr hawl i gael prydau ysgol am ddim, wedi bodloni neu ragori ar holl feincnodau Llywodraeth Cymru yn y pedair blynedd diwethaf. Mae Castell-nedd Port Talbot yn un o'r ychydig awdurdodau sydd wedi cyflawni hyn.

51 Mae presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn dda iawn ac yn chwarter uchaf Cymru dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, roedd y presenoldeb mewn ysgolion cynradd ymysg yr isaf yng Nghymru yn 2010. Mae niferoedd y gwaharddiadau o'r ysgol wedi gwella yn 2010, ond mae niferoedd y diwrnodau y mae disgyblion yn eu colli o'r ysgol oherwydd gwaharddiadau yn parhau yn gymharol uchel.

52 Arolygwyd Castell-nedd Port Talbot gan Estyn ym mis Tachwedd 2010. Daeth yr arolygwyr i'r casgliad bod gwasanaethau addysg yr awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yn dda oherwydd:

- mae plant a phobl ifanc yn gwneud cynnydd sefydlog ac yn cyrraedd safonau da iawn erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4;
- mae nifer y bobl ifanc sy'n gadael addysg llawn amser heb gymhwyster cydnabyddedig wedi gostwng yn sylweddol ac yn well na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru; ac
- mae'r cymorth ar gyfer gwella ysgolion yn dda ac mae'r cymorth ar gyfer dysgu ychwanegol yn rhagorol.

Barnodd yr arolygwyr fod gan yr awdurdod lleol ragolygon da ar gyfer gwella oherwydd:

- mae ei waith yn seiliedig ar egwyddorion am ansawdd darpariaeth gwasanaethau sydd wedi eu hystyried yn ofalus;
- mae prosesau penderfynu a blaenoriaethu effeithiol ynghylch gwella ysgolion a threfnu ysgolion; ac
- mae swyddogion ysgolion ac aelodau etholedig yn darparu arweiniad effeithiol yn sgil eu dealltwriaeth dda o'r blaenoriaethau gwella a pherfformiad yn y gwasanaeth Addysg.

Er mwyn parhau i wella, mae arolygwyr yn argymell y dylai'r awdurdod:

- wella cywirdeb asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnodau allweddol ym mhob cyfnod allweddol;
- mireinio a chryfhau trefniadau craffu ymhellach;
- gwella cydgynllunio strategol ac effaith y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc; a
- gostwng lleoedd dros ben mewn ysgolion yn unol ag egwyddorion allweddol y rhaglen gwella ysgolion strategol.

## Mae'r Cyngor wedi gwneud yr hyn roedd wedi bwriadu ei wneud i helpu i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol

53 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn nodi i ba raddau y mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n helpu pobl i greu a chynnal yr ardal fel lle diogel, llewyrchus a dymunol. Mae'n defnyddio tystiolaeth o'n hadolygiadau ni o berfformiad y Cyngor yn erbyn amcanion gwella penodol.

54 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei amcan o hyrwyddo economi gadarn a llewyrchus. Bodlonodd y mwyafrif o'i dargedau ar gyfer cynorthwyo pobl i ddod o hyd i waith a chynyddu nifer y busnesau roedd yn eu cefnogi. Darparodd fentrau a oedd yn cyd-fynd â'r cymorth cysylltiedig â chyflogaeth safonol sydd eisoes ar gael, gan helpu i wella rhagolygon cyflogaeth dinasyddion amrywiol, gan gynnwys pobl ag anableddau a phobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor. Darparodd y Cyngor ei gymorth busnes yn rhagweithiol a bu'n ymdrin â nifer cynyddol o ymholiadau gan fusnesau lleol yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, hyd yma nid yw'r Cyngor wedi gallu dangos dealltwriaeth glir o farn defnyddwyr gwasanaethau busnes am ei effeithlonrwydd ac ymddengys nad yw'n gwerthuso effeithlonrwydd ei gymorth busnes yn gadarn sy'n golygu y gallai fod yn methu cyfleoedd i gryfhau'r economi leol ymhellach.

55 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei welliannau amgylcheddol arfaethedig. Mae'r camau gweithredu a gymerwyd yn 2010-11 wedi helpu'r Cyngor i leihau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, a dyma'r cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran y dangosydd hwn. Mae gan y gostyngiad fanteision amgylcheddol ac ariannol tymor byr a thymor hwy, ar gyfer ei gymunedau ei hun a'r boblogaeth ehangach. Mae gwelliannau i'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus wedi gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon ac wedi arbed arian drwy leihau goramser. Hefyd, cwblhaodd y Cyngor ei gynlluniau 2010-11 i wella cyfleusterau cymunedol pwysig. Fodd bynnag, er y gwelliannau i'w drefniadau ailgylchu gwastraff dinesig yn ystod y flwyddyn, nid yw'r Cyngor yn bodloni targedau ailgylchu/ailddefnyddio gwastraff Llywodraeth Cymru o hyd.

56 Mae gwelliannau amgylcheddol eraill, yn bennaf adfer Gerddi Victoria a gwaith i Neuadd Gwyn, yn darparu gwell amwynderau hamdden i gymunedau lleol a byddant yn parhau i wneud hynny, gan gyfrannu'n gadarnhaol at eu lles.

## Nid oes gan y Cyngor ddull cyson o fesur perfformiad ledled y gwasanaethau. Gall hyn ei gwneud yn anodd i'r Cyngor werthuso llwyddiant rhai gweithgareddau ac adrodd ar berfformiad mewn ffordd gytbwys i ddinasyddion lleol

57 Mae'r Cyngor wrthi'n trawsnewid ei wasanaethau, gyda rhai gwasanaethau'n mabwysiadu dull meddwl trwy systemau ac eraill eto i gyflawni'r broses honno. Mae gwasanaethau nad ydynt wedi mabwysiadu dull meddwl trwy systemau yn parhau i fesur perfformiad drwy gyfuniad o weithgarwch monitro a dangosyddion perfformiad. Anogir gwasanaethau sy'n mabwysiadu dull meddwl trwy systemau i edrych ar y dull o fesur perfformiad o safbwynt gwahanol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi datblygu mesurau newydd yn llawn eto y gellid eu dadansoddi i bennu hyd a lled y gwelliannau yn sgil mabwysiadu systemau meddwl.

58 Mae'r ffaith fod nifer o systemau mesur gwahanol ar waith yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyngor fesur hyd a lled y gwelliannau y mae'r Cyngor yn ceisio'u cyflawni. Amlygir hyn gyda'r defnydd cyson o eiriau fel 'cynnydd' a 'gwella' heb unrhyw awgrym o faint y cynnydd neu faint o welliannau sy'n gyfystyr â llwyddiant o safbwynt y Cyngor. Mae'r Cyngor yn ymwybodol o'r angen i fod yn fwy eglur ynglŷn â'r lefel o welliant mae'n disgwyl ei wneud ar draws ystod o feysydd gwella, ac mae'n bwriadu cynnwys yr wybodaeth yma yn y cynllun corfforaethol diwygedig a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2012.

59 Mae Adroddiad Blynyddol y Cyngor yn defnyddio mesurau meintiol i ddangos gwelliannau mewn rhai meysydd fel cyfraddau ailgylchu, ond nid yw'n eglur ynglŷn â lefel y gwelliannau a ddisgwylir mewn perfformiad. Er enghraifft, mae'n cyfeirio at 'wella ein dulliau o gasglu gwastraff...' a 'Gwella ein gwasanaeth casglu gwastraff swmpus...' Yn wir, fe wnaeth y camau a gymerodd yn ystod 2010-11 ei helpu i wella perfformiad, ond nid yw'n glir a lwyddodd y canlyniadau i fodloni'r disgwyliadau gwreiddiol ai peidio. Mae'r Cyngor hefyd yn ymddangos yn amharod i ddiffinio cerrig milltir canolraddol. Mae hyn yn golygu ei bod yn anoddach asesu cynnydd yn erbyn camau gweithredu sy'n cael eu gweithredu dros gyfnod o fwy na blwyddyn ac mae'n anoddach i randdeiliaid asesu lefel y llwyddiant a gafwyd.

60 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cymharu perfformiad y Cyngor â chyfartaledd Cymru a pherfformiad chwartel uchaf y Dangosyddion Perfformiad. Fodd bynnag, ni cheir asesiad cyffredinol o berfformiad cyfanredol yn erbyn Dangosyddion Perfformiad, er enghraifft, cyfran y Dangosyddion Perfformiad sydd wedi gwella, gwaethygu neu aros yr un fath. Nid oes dadansoddiad neu gymhariaeth chwaith o gyfran y Dangosyddion Perfformiad yn y chwartelau uchaf, canolig ac isaf.

61 Mae'r Cyngor wedi ceisio cynnal asesiad teg a chytbwys drwy gynnwys meysydd lle cafwyd perfformiadau cryfach a gwannach yn yr Adroddiad Blynyddol, yn enwedig yn adrannau cychwynnol yr Adroddiad. Fodd bynnag, nid yw wedi llwyddo'n llwyr i wneud hyn gan ei fod yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawniadau cadarnhaol. Er enghraifft, mae adran Amgylcheddol yr Adroddiad Blynyddol yn canolbwyntio ar feysydd lle cafwyd perfformiad rhagorol, ond nid yw'n crybwyll maes allweddol o dangyflawni cymharol. Mae'n nodi mai perfformiad y Cyngor ym maes lleihau gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi oedd y gorau yng Nghymru yn 2010-11 ac yn cyfeirio at well perfformiad o ran ailddefnyddio a/neu ailgylchu'r gwastraff a gasglwyd. Fodd bynnag, nid yw'n crybwyll bod 15 o'r 22 cyngor yng Nghymru yn well nag ef am ailddefnyddio a/neu ailgylchu'r

gwastraff a gasglwyd, er bod y wybodaeth gyffredinol am y gymhariaeth wedi'i chynnwys yn Atodiad Dangosyddion Perfformiad yr Adroddiad; ac nid yw'n crybwyll nad oedd wedi bodloni targed ailgylchu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2010-11.

62 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi pennu bod y Cyngor wedi cyflawni ei holl ddyletswyddau mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth am welliannau. Fodd bynnag, dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, yn enwedig o ran:

- datblygu mwy o fesurau gyda gwell ffocws i ddangos canlyniadau;
- mynegi'n well yr hyn y mae'n ceisio'i gyflawni drwy bennu nodau a disgwyliadau perfformiad;
- egluro pam ei fod wedi cynnwys y cymariaethau sydd wedi'u gwneud, a'r rhai nad ydynt wedi'u gwneud; ac
- egluro'n well sut mae wedi defnyddio gwybodaeth am berfformiad, yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i wneud i gymharu a'r hyn y mae wedi'i wneud o ystyried y wybodaeth a'r cymariaethau y mae wedi'u gwneud.

# Atodiadau



# Atodiad 1
# Statws yr adroddiad hwn

Dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal Asesiad Gwella blynyddol, a chyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cynnwys cynghorau, parciau cenedlaethol a'r awdurdodau tân ac achub.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi paratoi'r adroddiad hwn fel rhan o'i ddyletswyddau dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni'i ddyletswyddau dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n cadarnhau ei fod wedi cynnal Asesiad Gwella dan adran 18 ac sy'n dweud a ydyw, yn sgil ei archwiliad o'r cynllun gwella dan adran 17, yn credu bod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliannau dan adran 15.

Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau gwella i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Mae cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yn enghreifftiau o awdurdodau gwella.

Yr Asesiad Gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni'i ddyletswyddau. Mae'r Asesiad Gwella wedi'i lywio gan asesiad sy'n edrych i'r dyfodol i weld pa mor debygol yw'r awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw'r awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau arfaethedig er mwyn mynegi barn ar hanes yr awdurdod o sicrhau gwelliant. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn crynhoi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad.

Dan rai amgylchiadau hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol gynnal arolygiadau arbennig (dan adran 21) ac mewn perthynas â hyn bydd yn cyflwyno adroddiad i'r awdurdodau a'r Gweinidogion perthnasol, ac efallai yn cyhoeddi'r adroddiad hwnnw (dan adran 22). Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi'r adroddiadau archwilio ac asesu yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig hwn (dan adran 24). Bydd hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o unrhyw adroddiadau ar arolygiadau arbennig.

Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu'r gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol yr holl reoleiddwyr perthnasol mewn awdurdod gwella. Hefyd, gall yr Archwilydd Cyffredinol ystyried y wybodaeth a rennir gan y rheoleiddwyr perthnasol (dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Gastell-nedd Port Talbot a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## Y Cyngor

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gwario tua £350 miliwn y flwyddyn (2010-11). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,550 y trigolyn. Yn yr un flwyddyn, mae'r Cyngor hefyd wedi gwario £59 miliwn ar eitemau cyfalaf.

£1,343.02 y flwyddyn yw'r dreth gyngor band D gyfartalog yng Nghastell-nedd Port Talbot yn 2011-12. Mae hyn wedi cynyddu o 3.03 y cant i £1, 383.73 y flwyddyn ar gyfer 2011-12. Mae 90.7 y cant o dai Castell-nedd Port Talbot yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 64 aelod etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau a'r defnydd o adnoddau. Mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 6 Annibynnol
- 39 Llafur
- 11 Plaid Cymru
- 3 Democratiaid Rhyddfrydol
- 3 Democratiaid Sosialaidd
- 2 Castell-nedd Port Talbot Annibynnol

Prif Weithredwr Castell-nedd Port Talbot yw Steven Phillips, ac mae'n cael ei gefnogi gan:

- Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes: Karl Napieralla
- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Thai: Tony Clements
- Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol: Derek Davies
- Cyfarwyddwr yr Amgylchedd: John Flower

## Gwybodaeth arall

Aelodau Cynulliad Castell-nedd Port Talbot yw:

- David Rees, Aberafan, Llafur
- Gwenda Thomas, Castell-nedd, Llafur
- Suzy Davies, Gorllewin De Cymru, Ceidwadwyr Cymru
- Peter Black, Gorllewin De Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Byron Davies, Gorllewin De Cymru, Ceidwadwyr Cymru
- Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru, Plaid Cymru

Aelodau Seneddol Castell-nedd Port Talbot yw:

- Hywel Francis, Aberafan, Llafur
- Peter Hain, Castell-nedd, Llafur

Am ragor o wybodaeth gweler gwefan y Cyngor ei hun, www.npt gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor: Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ.

# Atodiad 3
# Cyfrifon a defnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o adnoddau

## Llythyr Archwilio Blynyddol at Aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Fel y gwyddoch, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Gwella Blynyddol i bob awdurdod lleol erbyn diwedd mis Ionawr 2012 a bydd rhai o'r materion yr arferwyd adrodd arnynt yn Llythyr Archwilio Blynyddol yr Archwilydd Penodedig yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwnnw. Felly, rwyf wedi manteisio ar y cyfle i grynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o fy nghyfrifoldebau statudol yn y llythyr byr hwn sy'n ffurfio'r Llythyr Archwilio Blynyddol. Mae'r llythyr yn ddogfen annibynnol, ond bydd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor a'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Gwella Blynyddol ac felly'n cyflawni fy nghyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

**Cydymffurfiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot â thri o'r pedwar o ofynion adrodd sy'n ymwneud â'i berfformiad ariannol a'i ddefnydd o adnoddau, ond ni fodlonodd ei amserlenni statudol ar gyfer llunio Datganiad o Gyfrifon**

1. Cyfrifoldeb y Cyngor yw:
    - rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
    - cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
    - paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
    - sefydlu ac adolygu'r trefniadau priodol i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon;
2. Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:
    - roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
    - adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon; a
    - chyflwyno tystysgrif i gadarnhau fy mod wedi cwblhau archwilio'r cyfrifon.
3. Yn sgil oedi wrth lunio'r Datganiad o Gyfrifon, nid oeddwn yn gallu cyhoeddi barn archwilio erbyn y dyddiad cau statudol sef ar 30 Medi. Ar hyn o bryd, mae fy nhîm archwilio yn gweithio gyda swyddogion y Cyngor i'm galluogi i orffen yr archwiliad ar ôl derbyn y Datganiad o Gyfrifon a fydd yn cael ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 12 Rhagfyr 2011. Bydd y materion sy'n codi o'r archwiliad o'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn fy adroddiad Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol.
4. O 2010-11, mae'n ofynnol i awdurdodau lleol yng Nghymru baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Roedd y safonau newydd hyn yn golygu llawer o waith ychwanegol i staff cyllid y Cyngor, a dyma'n rhannol, ynghyd â'r trosglwyddo stoc tai a cholli dau aelod allweddol o staff, oedd y rheswm pam na lwyddodd i gwblhau'r gwaith erbyn y dyddiadau a bennwyd.

5. Er fy mod yn bwriadu rhoi barn ddiamod ar y cyfrifon, o ystyried yr oedi a gafwyd eleni ac ansawdd y cyfrifon a baratowyd, mae'n bwysig bod y Cyngor yn darparu'r adnoddau a'r prosesau angenrheidiol i sicrhau bod y gwaith yn cael ei gwblhau yn unol â'r amserlenni statudol yn 2011-12. Mae paratoi a chyhoeddi cyfrifon cywir ac archwiliedig yn brydlon yn ffordd sylfaenol i'r Cyngor ddangos ei fod yn cyflawni'i gyfrifoldebau o ran stiwardiaeth arian cyhoeddus.

6. Ni chanfuwyd unrhyw wendidau materol perthnasol yn nulliau rheoli mewnol y Cyngor, ond mae angen gwella dulliau rheoli yn y systemau credydwyr a dyledwyr. Codwyd y materion hyn yn y Pwyllgor Archwilio yn sgil archwilio mewnol ac mae'r gwaith o wneud y gwelliannau angenrheidiol yn cael ei wneud ar hyn o bryd.

7. Roedd fy adolygiad o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar waith archwilio'r cyfrifon ac yn dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan y Mesur Llywodraeth Leol (2009). Bydd prif ganfyddiadau i'r gwaith hwn yn cael eu cynnwys yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

8. Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau sylweddol, ond mae ganddo Flaengynllun Ariannol da ar waith. Byddai cysylltiadau cliriach â'r rhaglen gyfalaf yn ei wella ymhellach. Trafodir hyn yn fanylach yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol.

9. Dywedais y llynedd bod angen i'r Cyngor wella'r ffordd y mae'n rheoli grantiau. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn parhau a byddwn yn adrodd arno i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor yn gynnar yn 2012.

10. Rwy'n bwriadu rhoi tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar ôl ail-hysbysebu'r cyfrifon ar ôl Pwyllgor Archwilio mis Rhagfyr.

11. Bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2010-11 yn uwch na'r hyn a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Ariannol oherwydd y gwaith ychwanegol sydd angen ei wneud i gefnogi'r farn ar y datganiad o gyfrifon.

Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ
Tachwedd 2011

Mae gan etholwyr lleol ac eraill hawl i weld cyfrifon y Cyngor. Ar ôl i'r Cyngor gwblhau ei gyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, tua mis Mehefin neu Orffennaf fel arfer, mae'n rhaid iddo hysbysu eu bod ar gael i bobl edrych arnynt. Gallwch gael copïau o'r cyfrifon gan y Cyngor; a gallwch hefyd archwilio'r holl lyfrau, gweithredoedd, contractau, biliau, talebau a derbynebau sy'n ymwneud â'r cyfrifon am 20 diwrnod gwaith ar ôl iddynt fod ar gael. Gallwch holi'r arolygydd am y cyfrifon ar gyfer y flwyddyn y maent yn ei harchwilio. Er enghraifft, gallwch ddweud wrth yr archwilydd os ydych yn credu bod rhywbeth yn anghywir gyda'r cyfrifon neu am wastraff ac aneffeithlonrwydd yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cynnal ei wasanaethau. Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar daflen Swyddfa Archwilio Cymru, *Cyfrifon y Cyngor*: *eich hawliau*, sydd ar gael ar ein gwefan yn www.wao.gov.uk neu drwy ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

## Amcanion gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynllunio i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu. Bob blwyddyn, mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Nododd Cynllun Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot 20102013, *Cyflawni'r Hyn sy'n Bwysig*, saith Amcan Gwella i'w cyflawni yn ystod y flwyddyn honno. Ar gyfer 2011-12, mae'r Cyngor wedi cadw'r amcanion hynny gan y bydd yn cymryd mwy na blwyddyn i'w cyflawni. Dyma amcanion gwella'r Cyngor ar gyfer y llynedd ac eleni:

| **Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-2013** |
|---|
| **1 Gwella tai**<br>• Gwella safon tai ar gyfer tenantiaid y cyngor. |
| **2 Gwella Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hŷn**<br>• Gwella'r preifatrwydd a'r urddas a roddir i bobl hŷn sy'n byw yng nghartrefi gofal preswyl y Cyngor.<br>• Atal mwy o bobl rhag gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty pan ellir gofalu amdanynt yn y gymuned, ac rydym am sicrhau y gall mwy o bobl ddychwelyd adref o'r ysbyty pan fyddant yn barod i gael eu rhyddhau.<br>• Rydym am i oedolion sy'n agored i niwed fwynhau ansawdd bywyd da a chael cymorth i fyw mor annibynnol â phosibl. |
| **3 Gwella Addysg**<br>• Sicrhau bod ein hysgolion yn addas at y diben a'u bod yn gallu cynnig profiadau addysgol o ansawdd uchel ar gyfer pob disgybl. |
| **4 Gwella'r Cymorth i Blant sy'n agored i niwed a'u Teuluoedd**<br>• Gwella'r ffordd rydym yn ymyrryd ym mywydau plant sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. |
| **5 Gwella Gwasanaethau'r Cyngor**<br>• Sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn haws i'w defnyddio, yn fwy effeithlon ac o ansawdd uwch. |

| Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2010-2013 |
| --- |
| **6 Gwella'r Amgylchedd**<br>• Gwella'r trefniadau sydd ar waith gan y Cyngor i gasglu gwastraff a lleihau tirlenwi.<br>• Rydym am adeiladu dau gyfleuster hamdden a diwylliannol allweddol yn lle'r ddau a ddinistriwyd mewn tân. Rydym hefyd am wella Gerddi Fictoria yng Nghastell-nedd, y gwneir defnydd mawr ohonynt. |
| **7 Mae economi gadarn a ffyniannus yn helpu i leihau tlodi**<br>• Helpu mwy o fusnesau i weithredu, ac rydym am helpu pobl sydd am ddod o hyd i waith |

Mae Cynllun Corfforaethol 2010-12 y Cyngor ar gael ar ei wefan yn
http://www.npt.gov.uk/default.aspx?page=6639&lang=cy-gb

## Hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o'i berfformiad

Cyhoeddwyd hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2010-11 erbyn 31 Hydref 2011 a gellir ei weld yn ei Adroddiad Blynyddol 2010-11, *Cyflawni'r Hyn sy'n Bwysig*, ar wefan y Cyngor yn
http://www.npt.gov.uk/default.aspx?page=6639&lang=cy-gb

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk